

Dyfarniad amblecs radio graddfa fach Cymoedd Cymru: canslo a chynlluniau i ail-hysbysebu

Cefndir

O dan adran 51(6) Deddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Amblecs Radio Graddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019), gall Ofcom ganslo'r dyfarniad o drwydded amblecs radio graddfa fach pan nad yw'r drwydded ei hun wedi'i rhoi eto ac mae gan Ofcom sail resymol dros gredu na fydd y person y dyfarnwyd y drwydded iddo yn darparu'r gwasanaeth o fewn 18 mis i ddyddiad y dyfarniad.

Penderfyniad

Ar 18 Chwefror 2021 cyhoeddodd Ofcom ei benderfyniad i ddyfarnu trwydded i ddarparu gwasanaeth amblecs radio graddfa fach yn ardal Cymoedd Cymru i GTFM (South Wales) Limited ('GTFM'). GTFM, sy'n darparu gwasanaeth radio cymunedol analog yn yr ardal, oedd yr unig ymgeisydd am y drwydded.

Dros y misoedd diwethaf, mae Ofcom wedi bod yn cyfathrebu â GTFM ynglŷn â'r posibilrwydd o ddarparu'r gwasanaeth o fewn 18 mis i'r dyfarniad (h.y. erbyn 18 Awst 2022). Mae GTFM wedi cadarnhau, er gwaethaf ei ymdrechion gorau, na fydd modd iddo lansio gyda chynllun technegol sy'n adlewyrchu'r sail y dyfarnwyd y drwydded arno, ac mae wedi gofyn i Ofcom ganslo'r dyfarniad. Yn ngoleuni hyn, mae Ofcom o'r farn bod y meini prawf statudol o dan adran 51(6) wedi'u bodloni, ac mae'r dyfarniad wedi ei ganslo.

Mae Ofcom yn cydnabod bod amgylchiadau y pandemig COVID wedi bod yn arbennig o heriol i ymgeisydd bach sy'n ddibynnol ar gyllid allanol, yn enwedig yng nghyd-destun Cymoedd Cymru, sydd â thirwedd fynyddig, eithriadol o anodd i ddarparu ar ei chyfer. Mae'n arwydd o hyn y bu'n rhaid i'r cais gwreiddiol gynnig datrysiad wyth trawsyrrydd i ddarparu hyd yn oed ar gyfer 37% o'r ardal a hysbysebwyd (llawer mwy o drawsryddion nag y mae eu hangen mewn ardaloedd eraill, ac am ddarpariaeth gymedrol mewn termau canrannol). Mae terfyn amser statudol o 18 mis yn bodoli ar gyfer lansio amblecsau graddfa fach, ond mae Ofcom yn cydnabod yr ymdrechion diffuant a wnaed gan GTFM o dan amgylchiadau anodd.

Ail-hysbyseb

Mae GTFM wedi mynegi ei ddymuniad i drwydded gael ei hail-hysbysebu yn ardal Cymoedd Cymru. Mae Ofcom yn ystyried bod Cymoedd Cymru yn ardal sydd â photensial cryf ar gyfer gwasanaethau radio lleol a chymunedol, ac adlewyrchwyd hyn wrth ei chynnwys yn y rownd gyntaf o drwyddedu amblecs radio graddfa fach. Rydym felly yn bwriadu ail-hysbysebu'n brydlon.

Fodd bynnag, yng ngoleuni'r heriau technegol o ran darpariaeth a nodir uchod, rydym yn bwriadu ailystyried yr ardal a hysbysebir gyda'r nod o hysbysebu trwydded ochr yn ochr â Rownd Pump¹, wedi'u lleoli o amgylch canolfannau poblogaeth yn rhan orllewinol yr ardal a hysbysebwyd yn wreiddiol.

¹ Rydym wedi cyhoeddi'n flaenorol y bydd Rownd Pump yn ymdrin ag 'ardal facro' De-ddwyrain Lloegr oherwydd y cyfyngiadau ar sbectrwm sy'n benodol i'r rhanbarth hwnnw, felly byddai'r ardal ddaearyddol wahanol hon yn cael ei hysbysebu ochr yn ochr â Rownd Pump yn hytrach nag fel rhan ohoni.